# Symud!

**CYTGAN:**
**Ry'n ni'n barod – ydych chi?**
**Dewch i symud gyda ni! (x2?)**

**Neidio fyny ac i lawr,**
**Dwylo yn yr awyr nawr,**
**Rhedeg yn yr unfan - glou!**
**Wedyn amser troi a throi.**

**CYTGAN:**
**Ry'n ni'n barod – ydych chi?**
**Dewch i symud gyda ni! (x2?)**

**Curo dwylo – 1, 2, 3,**
**A naid seren – dyna ni!**
**Fflapio breichiau'n chwim fel Cyw,**
**Pawb yn symud fel un criw.**

**CYTGAN:**
**Ry'n ni'n barod – ydych chi?**
**Dewch i symud gyda ni! (x2?)**

**Hercian ar un droed – hwrê!**
**Does dim ots, y chwith neu'r dde!**
**Cam ymlaen a cham yn ôl,**
**Yna siglo eich pen ôl!**

© 2024 S4C